RNIB Cymru

Golwg gwahanol

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

Y Comisiwn Etholiadol

Dydd Iau 6 Mai 2021

## Eich canllaw poced i bleidleisio



# Etholiadau Senedd Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'r canllaw poced defnyddiol hwn yn rhoi gwybodaeth i chi i'ch helpu i bleidleisio'n hyderus yn yr etholiadau eleni. Mae'n ymdrin â pha etholiadau sy'n cael eu cynnal, y gwahanol opsiynau pleidleisio sydd ar gael a pha gymorth ac addasiadau y mae gennych hawl iddynt.

**Bydd yr etholiadau eleni yn wahanol i flynyddoedd blaenorol. Bydd mesurau diogelwch ychwanegol ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio i sicrhau eu bod yn fannau diogel i bleidleisio yn ystod Covid-19. Mae'r canllaw poced hwn yn ymdrin â'r hyn y gallwch ei ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio i'ch helpu i wneud penderfyniad gwybodus am y ffordd orau i chi bleidleisio.**

Mae'r RNIB wedi gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i roi cyfarwyddyd i staff gorsafoedd pleidleisio i wella eu dealltwriaeth o golled golwg ac i'w helpu i wneud pleidleisio mor ddiogel a hygyrch i bleidleiswyr dall ac â golwg rhannol â phosib. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu'r cyfarwyddyd a'r gefnogaeth honno.

**Mae croeso i chi fynd â'r canllaw hwn gyda chi ar ddiwrnod pleidleisio'r etholiad fel deunydd cyfeirio, os byddai hynny'n ddefnyddiol.**

Mae'r canllaw poced hwn ar gael mewn amrywiaeth o fformatau amgen, gan gynnwys print mawr, digidol, sain a braille. Ffoniwch ein **llinell gymorth ar 0303 123 9999** am gopi yn y fformat o'ch dewis.

## Pa etholiadau sy'n cael eu cynnal?

Ddydd Iau 6 Mai 2021, bydd etholiadau'r Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal yng Nghymru.

Dyma'r tro cyntaf i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys bleidleisio yn etholiad y Senedd.

Mae gan y Senedd bwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar amrywiaeth o feysydd gan gynnwys iechyd, yr economi, addysg, tai a thrafnidiaeth. Mae'r Senedd yn cynnwys 60 Aelod o'r Senedd (AS) sy'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli.

Mae 40 AS yn cynrychioli etholaethau Cymru (eich ardal leol) ac mae 20 AS yn cynrychioli pum rhanbarth: Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, De Orllewin Cymru, De Ddwyrain Cymru, a Chanol De Cymru.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn goruchwylio eich heddlu lleol ac yn sicrhau eu bod yn rhoi blaenoriaeth i'r hyn sy'n bwysig i chi.

## Pleidleisio yn Etholiadau'r Senedd

Defnyddir system bleidleisio gyfrannol aelodau cymysg ar gyfer etholiadau'r Senedd. Byddwch yn derbyn dau bapur pleidleisio: un i ethol eich Aelod etholaethol a'r llall i ethol eich Aelodau rhanbarthol. Byddwch yn pleidleisio unwaith ar bob papur pleidleisio. I bleidleisio, marciwch groes yn y bocs gyferbyn ag enw'r ymgeisydd.

**Papur pleidleisio etholaethol**
Defnyddiwch y papur pleidleisio hwn i bleidleisio dros ymgeisydd i gynrychioli eich etholaeth. Yr ymgeisydd sydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau fydd yn dod yn AS ar gyfer eich etholaeth chi.

**Papur pleidleisio rhanbarthol**
Defnyddiwch y papur pleidleisio hwn i bleidleisio dros blaid neu ymgeisydd annibynnol i gynrychioli eich rhanbarth. Ym mhob rhanbarth, mae pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol yn ennill seddi yn seiliedig ar:

- Nifer y pleidleisiau a gânt yn y bleidlais ranbarthol hon, a
- Nifer y seddi etholaethol mae pleidiau/ymgeiswyr unigol yn eu hennill yn y rhanbarth



## Pleidleisio yn Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Defnyddir system Pleidlais Atodol yn Etholiadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Byddwch yn derbyn un papur pleidleisio a gallwch bleidleisio dros ymgeisydd dewis cyntaf ac ail ddewis. Pleidleisiwch dros eich ymgeisydd dewis cyntaf drwy farcio croes yn y golofn dewis cyntaf a thros eich ymgeisydd ail ddewis drwy farcio croes yn y golofn ail ddewis. Cyn belled â'ch bod yn marcio un groes yn y golofn dewis cyntaf, bydd eich pleidlais yn cael ei chyfrif. Gallwch ddewis a ydych am farcio ail ddewis ai peidio.

## Sicrhau bod gan bawb gefnogaeth i bleidleisio

### Gallwch ddefnyddio eich ffôn neu dechnolegau cynorthwyol eraill

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae gennych hawl i addasiadau rhesymol i'ch helpu i fwrw'ch pleidlais yn annibynnol. Mae hyn yn golygu eich bod yn cael mynd â ffôn neu fath arall o dechnoleg gynorthwyol i'r bwth pleidleisio i'ch helpu i bleidleisio. Er enghraifft, i ddefnyddio apiau chwyddwydr neu destun-i-lefaru, neu'r golau ar y ffôn i wella'r golau yn y lleoliad.

Mae cefnogaeth ar gael yn yr orsaf bleidleisio hefyd, ac rydym wedi manylu arni isod. Gallwch ofyn i'r Swyddog Llywyddu – y person annibynnol sydd yng ngofal yr orsaf bleidleisio – am help hefyd.

**Gallwch ddefnyddio'r ddyfais bleidleisio gyffyrddol**
Bydd gan eich gorsaf bleidleisio ddyfais y gellir ei hatodi i'r papur pleidleisio. Mae ganddi ffenestr y gellir ei chodi ar gyfer pob plaid neu ymgeisydd annibynnol. I ddefnyddio'r ddyfais dylech:

- codi'r ffenestr ar gyfer y blaid neu'r ymgeisydd annibynnol rydych eisiau pleidleisio drosto
- marcio X
- cau'r ffenestr
- gwahanu'r templed oddi wrth y papur pleidleisio
- plygu a rhoi'r papur pleidleisio yn y bocs pleidleisio

Gall staff yr orsaf bleidleisio egluro sut i ddefnyddio'r ddyfais a darllen enwau'r blaid a'r ymgeiswyr yn y drefn maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio.



**Gallwch ddefnyddio'r adnoddau print mawr**
Bydd gan eich gorsaf bleidleisio fersiwn print mawr o'r papur pleidleisio yn cael ei arddangos. Bydd copi â llaw o'r papur pleidleisio ar gael hefyd mewn print mawr i chi fynd ag ef i mewn i'r bwth pleidleisio i'ch helpu i farcio eich papur pleidleisio yn annibynnol.

**Gallwch ofyn i'r Swyddog Llywyddu am help**
Mae'r Swyddog Llywyddu yn berson annibynnol sy'n gyfrifol am yr orsaf bleidleisio. Gallwch ofyn iddo am help.

Gallwch ofyn i'r Swyddog Llywyddu ddarllen y cyfarwyddiadau ar y papur pleidleisio ac enwau'r pleidiau a'r ymgeiswyr yn y drefn maent yn ymddangos ar y papur pleidleisio.

Gallwch ddweud wrth y Swyddog Llywyddu, ym mhreifatrwydd y bwth pleidleisio, sut i farcio'r papur pleidleisio ar eich rhan.

**Gallwch ofyn i rywun ddod i'r orsaf bleidleisio gyda chi**
Gallwch hefyd ddod â rhywun gyda chi sydd dros 18 oed, ac sy'n gymwys i bleidleisio yn yr etholiad, i'ch helpu i fwrw'ch pleidlais. Dylech hysbysu'r Swyddog Llywyddu y bydd eich cyfaill yn eich cynorthwyo.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'ch cyfaill gwblhau datganiad syml. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu gofnodi eich enw a'ch rhif etholwr, yn ogystal ag enw a chyfeiriad eich cyfaill. Mesur diogelwch yw hwn yn unig ac ni fydd yn golygu bod posib gwybod i bwy rydych chi wedi bwrw eich pleidlais mewn unrhyw ffordd.

**Gallwch bleidleisio drwy'r post**
Os na allwch ymweld â'ch gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad, neu os byddai'n well gennych beidio â gwneud hynny, gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post. Lawrlwythwch ffurflen gais o wefan y Comisiwn Etholiadol neu cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.

Gallwch ofyn am eich cais am bleidlais bost mewn fformat hygyrch fel braille neu brint mawr.

Fel rheol, rhaid i geisiadau am bleidlais bost gynnwys llofnod yr etholwr. Os na allwch ddarparu llofnod, neu lofnod cyson, gallwch ofyn i'r gofyniad am lofnod gael ei hepgor. Rhaid i'ch cais gynnwys y rheswm dros ofyn am ildio'r gofyniad ac enw a chyfeiriad unrhyw berson sydd wedi eich cynorthwyo i gwblhau'r cais.

Y dyddiad cau i wneud cais i bleidleisio drwy'r post yw **5pm ddydd Mawrth 20 Ebrill 2021.**

Byddwch yn derbyn eich papurau pleidleisio drwy'r post. Cwblhewch a dychwelwch eich papurau pleidleisio, gan sicrhau eich bod yn gadael digon o amser iddynt gyrraedd erbyn **10pm nos Iau 6 Mai 2021**.

**Gallwch bleidleisio drwy brocsi**
Pleidlais drwy brocsi yw lle rydych chi'n penodi rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo i bleidleisio ar eich rhan.

I wneud cais i bleidleisio drwy brocsi, llenwch ffurflen gais a'i hanfon i'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol i gyrraedd

erbyn **5pm dydd Mawrth 27 Ebrill 2021**. Lawrlwythwch ffurflen gais drwy wefan y Comisiwn Etholiadol neu cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol leol.

Mewn argyfwng lle na allwch fynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol, gan gynnwys hunanynysu oherwydd Covid-19, gallwch wneud cais am brocsi brys hyd at **5pm dydd Iau 6 Mai 2021.**



## Beth i'w ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio

Bydd gorsafoedd pleidleisio yn fannau diogel i bleidleisio. Bydd nifer o fesurau'n cael eu rhoi ar waith i'ch helpu i gadw'n ddiogel wrth bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio. Rydym yn gwybod bod rhai o'r mesurau ymateb i Covid-19 sydd wedi'u cyflwyno yn ystod y misoedd diwethaf wedi bod yn heriol iawn i rai pobl.

Mae'r RNIB wedi gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i roi arweiniad i staff gorsafoedd pleidleisio i wella eu dealltwriaeth o golled golwg ac i'w helpu i wneud pleidleisio mor ddiogel a hygyrch â phosib i bleidleiswyr dall ac â golwg rhannol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- awgrymiadau ar sut i ddarparu tywysydd gyda golwg a llafar,
- gwybodaeth am dechnolegau cynorthwyol, apiau, chwyddwydrau, goleuadau personol ac addasiadau rhesymol eraill y mae gan bobl hawl i'w defnyddio i'w helpu i bleidleisio'n annibynnol,
- sut i baratoi'r orsaf bleidleisio i'w gwneud yn haws symud ynddi,
- canllawiau print ac arwyddion clir,
- ymwybyddiaeth o eithriadau o ran gorchuddion a chadw pellter cymdeithasol.

Dyma beth allwch chi ei ddisgwyl ar ddiwrnod yr etholiad.

### Gorsafoedd diheintio dwylo a rhagofalon hylendid

Bydd disgwyl i bob pleidleisiwr ddefnyddio'r diheintyddion dwylo a ddarperir wrth fynd i mewn i'r

orsaf bleidleisio ac wrth adael. Rydym wedi gofyn i bob gorsaf fod yn hawdd ei chanfod, mewn lleoliad amlwg a bod â gwrthgyferbyniad lliw priodol.

Bydd unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir yn ystod y broses bleidleisio, fel dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol, yn cael eu glanhau'n drylwyr ar ôl pob defnydd.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn annog pob etholwr i ddod â'u beiro neu eu pensil eu hunain, ond bydd cyflenwad o feiros neu bensiliau glân ar gael yn yr orsaf bleidleisio.

**Mesurau cadw pellter cymdeithasol**

Gall mesurau fel systemau a marcwyr un ffordd fod ar waith yn yr orsaf bleidleisio i helpu gyda chadw pellter cymdeithasol. Bydd cyfyngiad hefyd ar nifer y bobl a ganiateir yn yr adeilad ar unrhyw un adeg. Os hoffech chi gael unrhyw help, bydd staff wrth law i ddarparu cymorth.

**Gorchuddion wyneb, eithriadau a deunyddiau cadw pellter cymdeithasol**

Bydd yn ofynnol i bob pleidleisiwr wisgo gorchudd wyneb y tu mewn i'r orsaf bleidleisio oni bai eu bod wedi'u heithrio. Mae pobl ddall ac â golwg rhannol wedi'u heithrio rhag gwisgo gorchudd wyneb oherwydd gall y rhain amharu ar y golwg defnyddiol sydd ganddynt yn weddill. Efallai y byddech yn hoffi cario cerdyn neu fathodyn i ddangos eich bod wedi'ch eithrio, ond dewis personol yw hwn ac nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae nifer o gynhyrchion y gellir eu gwisgo ar gael i chi eu defnyddio os ydych yn dymuno dangos i eraill eich bod


eisiau cadw eich pellter ond y gallai hynny fod yn anodd i chi. Mae'r rhain yn cynnwys laniards, bathodynnau, masgiau ac adnoddau eraill.

Plîs Rhowch Le i Mi: **www.pleasegivemespace.uk**
Ymwybyddiaeth o Bellter:
**www.bevancommission.org/distance-aware**
Blodyn haul anableddau cudd:
**www.hiddendisabilitiesstore.com**

**Goleuadau, chwyddwydrau, technolegau cynorthwyol a chymorth arall**

Mae gennych hawl i ddefnyddio dyfeisiau cynorthwyol i'ch helpu i fwrw'ch pleidlais yn annibynnol ac yn breifat. Os hoffech ddefnyddio unrhyw ddyfais bleidleisio gyffyrddol, papur pleidleisio print mawr neu chwyddwydr, gofynnwch i aelod o staff. Maen nhw yno i'ch helpu.

Os oes gennych eich dyfais gynorthwyol eich hun, fel ffôn, chwyddwr fideo neu olau poced, mae croeso i chi ddefnyddio hwn. Fel dewis arall, gallwch hefyd gael cefnogaeth ffrind, aelod o'r teulu neu aelod o staff.




© RNIB registered charity in England and Wales (226227), Scotland (SCO39316), Isle of Man (1226). Also operating in Northern Ireland.